



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 360 – 11 Hydref 2012
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2012.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 359

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 359.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig.

MG Alba - Cynhaliwyd cyfarfod adeiladol gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr MG Alba yn ddiweddar ac maent yn awyddus i ddatblygu'r cysylltiad â S4C.

Yr Arglwydd Patten - Roedd HJ ac IHJ wedi cyfarfod yr Arglwydd Patten ac ECS. Trafodwyd materion yn ymwneud â'r berthynas rhwng S4C a'r BBC a'r mesuriadau perfformiad ar gyfer adrodd i Ymddiriedolaeth y BBC.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad ysgrifenedig.

Amcanion Corfforaethol hyd at ddiwedd 2013

Cyflwynodd IHJ yr Amcanion Corfforaethol hyd at ddiwedd 2013 ac eglurodd y drefn newydd ar gyfer creu amcanion corfforaethol, adrannol ac unigol. Cyfeiriwyd at brif bwyntiau'r ddogfen a thrafodwyd y berthynas rhwng S4C a'r sector annibynnol. Cymeradwywyd yr Amcanion Corfforaethol ar gyfer 2013.

Gwerthuso

Cyflwynodd IHJ ddiagram yn amlinellu'r system werthuso newydd. Bydd y system yn cael ei gyhoeddi i'r staff yn fuan.

BBC – Bwrdd Partneriaeth ar y Cyd

Cyflwynodd IHJ adroddiad terfynol y Bwrdd Partneriaeth ar y Cyd. Mae BBC Cymru/Wales yn ystyried opsiynau adleoli sy'n cynnwys adeiladu canolfan newydd yn y Bae. Ni fydd modd i S4C gyd-leoli gyda BBC Cymru/Wales cyn 2017. Sefydlir grŵp prosiect gan S4C i ystyried cydleoli gyda BBC Cymru/Wales mewn lleoliad yng Nghaerdydd.

Pen-blwydd S4C

Eglurodd IHJ mae'r flaenoriaeth bydd dathlu'r achlysur ar y sgrin, gyda nifer o raglenni arbennig.

4. Cymeradwyo Gweithred y Bartneriaeth Strategol gydag Ymddiriedolaeth y BBC ar gyfer y cyfnod 2013 – 2016/7

Cyflwynodd EM Weithred y Bartneriaeth Strategol newydd ar gyfer y cyfnod o 1af Ebrill 2013. Roedd y ddogfen yn seiliedig ar y cytundeb diwethaf. Esboniwyd bod gwerth ariannol blynyddol y cytundeb wedi gostwng a bydd yn aros yn sefydlog am weddill cyfnod y cytundeb. Cymeradwywyd Gweithred y Bartneriaeth Strategol gan yr Awdurdod.

5. Ystyried Amserlen Arweiniol ar gyfer Cynllun Gwaith 2013

Cyflwynwyd fersiwn newydd o'r amserlen arweiniol a ddiweddarwyd ers y cyfarfod diwethaf. Diweddarwyd rhaglen y Pwyllgor Cynnwys a'r Pwyllgor Archwilio a chaiff rhaglen waith y Pwyllgor Personél a'r Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth eu cynnwys yn dilyn cyfarfodydd nesaf y pwyllgorau. Cymeradwywyd yr amserlen arweiniol.

6. Ystyried Strwythur Gweithgareddau Masnachol S4C

Cyflwynwyd cynllun ar gyfer ail-strwythuro gweithgareddau'r Bwrdd Masnachol. Bwriad y cynllun oedd symleiddio gwaith y Bwrdd Masnachol a rhoi'r gallu iddo ystyried materion strategol yn hytrach na materion gweithredol. Cymeradwywyd y cynllun ail-strwythuro, gan ofyn i swyddogion drafod gweithredu'r cynllun gyda chyfarwyddwyr y Grŵp Masnachol.

7. Aelodaeth Pwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynodd HJ gynnis ar gyfer aelodaeth pwyllgorau'r Awdurdod.

ARCHWILIO A RHEOLI RISG

Rheon Tomos (Cad)
Dyfrig Jones
Carol Bell
Elan Closs Stephens

CYNNWYS

Aled Eirug (Cad)
Glenda Jones
Dyfrig Jones
John Davies

CWYNION A CHYDYMFFURFIAETH

John Davies (Cad)
Glenda Jones
Carol Bell
Y trydydd aelod newydd

PERSONÉL A CHYDNABYDDIAETH

Y trydydd aelod newydd (Cad)
Rheon Tomos
Aled Eirug
Elan Closs Stephens

Y BWRDD MASNACHOL

Carol Bell (Cad)
Dyfrig Jones
John Davies

Cymeradwywyd aelodaeth y pwyllgorau.

8. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys

Cyflwynodd DRh ei adroddiad ysgrifenedig ac ymhlith eraill cyfeiriodd at y rhaglenni a phynciau isod:

- Trafodwyd rhaglenni hamdden S4C a'r cydbwysedd rhwng rhaglenni hamdden a darlledu eitemau hamdden o fewn rhaglenni cylchgrawn dyddiol.
- Cyfeiriwyd at O'r Galon: Fy Chwaer a Fi a nodwyd mai cyd-gynhyrchiad gyda'r BBC oedd y rhaglen.

- Croesawyd Lleisiau'r Ail Ryfel Byd gan CBAC ac fe fydd linc i'r rhaglen yn cael ei danfon at ysgolion.
- Mae cyfres Dwylo'r Enfys yn cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd. Bydd y rhaglen yn defnyddio iaith Makaton. Mae swyddogion wedi cynnal trafodaethau er mwyn cynhyrchu adnoddau Makaton trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Yn dilyn y digwyddiadau ym Machynlleth, newidiwyd amserlen S4C gan gynnwys dileu un bennod o Bobl y Cwm oherwydd cynnwys y stori. Golygwyd ac ail-saethwyd pennod arall a chafwyd rhaglen arbennig o'r Byd ar Bedwar yn ystod yr wythnos.

9. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad Cyllid
- Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol
- Adroddiad Cyfathrebu